# Aelodaeth QAA ar gyfer Darparwyr Addysg Uwch y DU yng Nghymru

## Cytundeb Aelodaeth

### Ein hymrwymiad i chi

Mae Aelodaeth QAA yn cadarnhau ein hymrwymiad parhaus i weithio gyda chi i ddarparu ystod o wasanaethau ymatebol wedi'u teilwra sy'n diwallu anghenion penodol addysg uwch yng Nghymru.

Mae aelodaeth yn adlewyrchu'n llawn natur y gwaith partneriaeth cydweithredol sy'n cael ei ddatblygu yng Nghymru. Aelodau sy'n llywio'r gwaith a wnawn – trwy gymdeithas Prifysgolion Cymru, Colegau Cymru, grwpiau sector fel Rhwydwaith Ansawdd Cymru, a thrafodaethau rheolaidd gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)[1] a rhanddeiliaid eraill. Bob blwyddyn byddwn yn ceisio cynllunio gweithgareddau i ddiwallu'r blaenoriaethau penodol yr ydych chi, fel aelodau, yn eu nodi sydd bwysicaf i chi.

Fel aelodau o QAA, bydd holl staff a myfyrwyr pob darparydd addysg uwch yng Nghymru'n parhau i gael mynediad at ein holl adnoddau. Pan fyddwch yn cofrestru fel defnyddiwr gwasanaethau Aelodaeth QAA, byddwn yn cysylltu â chi trwy e-bost i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi o ran newyddion QAA a diweddariadau ar gyfer yr aelodaeth am ddigwyddiadau a gweithgareddau. Mae gennym hawl gyfreithlon i wneud hynny, fel yr amlinellir yn Hysbysiad Preifatrwydd QAA. Os nad ydych am dderbyn y cyfathrebiadau hyn, gallwch hysbysu ein hadran aelodaeth: membership@qaa.ac.uk Gallwch hefyd ddefnyddio'r botwm dad-danysgrifio i roi'r gorau i dderbyn unrhyw gyfathrebiadau e-bost.

Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar yr hyn y gall aelodau yng Nghymru gael mynediad ato. Mae'n cynnwys yr holl adnoddau a gwmpesir gan Aelodaeth QAA a'r pecyn Mewnwelediadau Rhyngwladol.

### Ein haelodau yng Nghymru

Mae pob darparydd addysg uwch a reoleiddir yng Nghymru'n aelodau. Mae'r Brifysgol Agored ar draws y DU yn aelod o QAA ac mae hefyd yn cael mynediad at weithgareddau ac adnoddau aelodaeth yn y gwledydd datganoledig. Gall darparwyr nad ydynt yn cael eu rheoleiddio sy'n darparu addysg uwch hefyd fod yn aelodau o QAA.

[1] O 1af Awst 2024, bydd pwerau CCAUC yn cael eu trosglwyddo i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY).

## Meini prawf ar gyfer aelodaeth

I gael mynediad at fanteision Aelodaeth QAA, mae angen i chi fod:

1 yn endid cyfreithiol sydd wedi'i gofrestru neu ei sefydlu yn y DU; a

2 yn darparu cymwysterau'r DU a gydnabyddir naill ai:

a) ar Lefel 4 ac uwch y *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Uwch o Gyrff Dyfarnu Graddau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon* (FHEQ); neu

b) ar Lefel 7 ac uwch o *Fframwaith Credydau a Chymwysterau'r Alban* (SCQF);

ac

3 yn amodol ar un o'r canlynol:

a) adolygiad gan QAA; neu'r

b) trefniadau ansawdd neu reoleiddiol sy'n berthnasol i addysg uwch yn un o wledydd y DU; neu

c) oruchwyliaeth (er enghraifft, trwy bartneriaeth gydweithredol ffurfiol) darparydd sydd ei hun yn destun y trefniadau ansawdd neu reoleiddiol sy'n berthnasol i sefydliadau addysg uwch yn un o wledydd y DU.

## Ffioedd aelodaeth

Mae'r flwyddyn aelodaeth yn rhedeg o 1af Awst i 31ain Gorffennaf a chaiff anfonebau eu cyflwyno ym mis Mehefin a mis Gorffennaf. Gall mynediad i adnoddau QAA gael ei gyfyngu os na chaiff anfonebau eu talu o fewn 30 diwrnod.

Byddwn yn adolygu ffioedd aelodaeth yn flynyddol ac yn cyfathrebu unrhyw newidiadau cyn diwedd y flwyddyn aelodaeth.

Bydd aelodaeth yn dod i ben yn awtomatig os na thelir anfoneb o fewn 30 diwrnod, neu os bydd unrhyw newid sy'n effeithio ar allu'r aelod i fodloni'r meini prawf o ran cymhwyster.

Nid yw aelodaeth yn drosglwyddadwy ac ni ellir ei had-dalu. Pan fydd dau neu fwy o Aelodau QAA yn uno, bydd cymhwysedd ar gyfer aelodaeth y darparydd newydd unedig yn cael ei ystyried a'i gadarnhau gan QAA.

Mae aelodaeth yng Nghymru'n parhau i gynnwys nifer penodedig o leoedd ar gyfer staff a myfyrwyr mewn digwyddiadau a gynlluniwyd er mwyn aelodau yng Nghymru. Mae aelodaeth ar draws y DU gyfan yn cynnwys lleoedd yng Nghynhadledd Flynyddol QAA ynghyd ag amrywiaeth o adnoddau DU gyfan y gellir eu cyrchu trwy ein gwefan Adnoddau'r Aelodaeth. Mae gweminarau ychwanegol sy'n mynd i'r afael â materion ledled y DU, yn ogystal â chyfleoedd i gydweithio ledled y DU, hefyd wedi'u cynnwys.

## Adnoddau sydd ar gael i'r cyhoedd ac adnoddau'r aelodaeth

Bydd QAA yn parhau i gyhoeddi'r holl ddeunyddiau rheoleiddiol ar wefan QAA yn unol â'r trefniadau rheoleiddio perthnasol ym mhob gwlad. Mae hyn yn cynnwys y fframweithiau cymwysterau cenedlaethol a Chôd Ansawdd Addysg Uwch y DU. Bydd fersiynau cyfredol o gyfeirbwyntiau eraill (Datganiadau Nodweddion a Datganiadau Meincnod Pwnc, yn ogystal â Chyngor a Chanllawiau ar y Côd Ansawdd) yn parhau i gael eu cyhoeddi ar wefan QAA a byddant ar gael i'r cyhoedd.

Mae'n bosibl y bydd fersiynau yn y dyfodol a diweddariadau o'r cyfeirbwyntiau a ddatblygwyd gan QAA ar y cyd â'r gymuned sy'n aelodau ar gael i aelodau'n unig. Bydd unrhyw gyfyngiadau'n cael eu penderfynu gyda'n haelodau.

Bydd adnoddau a ariennir yn uniongyrchol gan CCAUC, neu wedyn gan CADY, trwy drefniadau grant ar gael i'r cyhoedd. Bydd ystod eang o gyhoeddiadau eraill QAA yn parhau i fod â phenawdau neu grynodebau yn unig ar ein gwefannau cyhoeddus, gyda'r wybodaeth lawn ar gael i'n haelodau yn unig, a gellir cyrchu'r wybodaeth honno ar ein gwefan Adnoddau'r Aelodaeth.

## Trosolwg o egwyddorion aelodaeth

Pan fyddwch yn prynu Aelodaeth QAA, rydych yn buddsoddi yn ansawdd profiad academaidd eich myfyrwyr. Gall pawb yn eich sefydliad fanteisio ar y buddion a gewch o'ch Aelodaeth QAA. Bydd rhai deunyddiau at ddefnydd Aelodau QAA yn unig, a gyrchir drwy ein safle Adnoddau'r Aelodaeth.

Bydd gan bob aelod o staff a myfyriwr o fewn sefydliad sy'n aelod fynediad at Adnoddau'r Aelodaeth.

Mae Aelodaeth QAA yn dangos ymrwymiad i ansawdd, ac i gynnal hyder y cyhoedd yn addysg uwch y DU Mae'r ymrwymiad hwn yn seiliedig ar ddisgwyliad o ymddygiad da a phroffesiynoldeb. Gellir atal neu derfynu aelodaeth os:

- yw aelod yn ymddwyn mewn ffordd sy'n dwyn anfri arno'i hun neu ar y sector addysg uwch neu QAA
- canfyddir bod aelod wedi torri unrhyw amod, safon neu ofyniad rheoliadol
- yw aelod yn mynd yn groes i'r egwyddorion aelodaeth hyn.

Gellir dod i hyd i'r telerau ac amodau llawn ar gyfer y ddarpariaeth o wasanaethau aelodaeth ar ein gwefan.

## Mae aelodaeth yn cynnwys ein partneriaid

Mae cyllidwyr a rhanddeiliaid allweddol yn bartneriaid sy'n aelodau, gan gynnwys CCAUC (o 1af Awst 2024, CADY), Prifysgolion Cymru, Colegau Cymru, Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, UCM Cymru, Estyn ac AU Ymlaen yng Nghymru, yn ogystal â'r Gyfarwyddiaeth Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes o fewn Llywodraeth Cymru.

Cyhoeddwyd - Mai 2024
© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch 2024
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 a SC037786
www.qaa.ac.uk